# ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL

## CYNNIG Y DDARPARIAETH ADDYSG GATHOLIG

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:
  - y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027;
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027;
  - y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

**Gwanwyn - Haf 2026**

# RHAN A. CYFLWYNIAD

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach. Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Ysgol Sant Anthony.

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol os bydd yn cael ei roi ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

Bydd y cyfnod ymgynghori yn agor ddydd Mawrth **16 Mehefin 2026** ac yn dod i ben am 11.59pm ddydd Mercher **29 Gorffennaf 2026**.

Y ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gweithio a fydd yn cael eu diweddaru yn dilyn gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

# RHAN B. PWRPAS YR ASESIAD

Nod yr Asesiad o Effaith Cymunedol yw nodi sut y gall gweithrediad y cynnig effeithio ar gymuned yr ysgol a'r ardal leol.

Mae'r asesiad yn nodi'r trefniadau cludiant presennol ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgolion sy'n destun cynnig newid trefniadol ysgolion, ynghyd â baich ariannol presennol i'r Cyngor a sut y gallai gweithrediad y cynnig effeithio ar gostau cludiant cyffredinol.

Wedi'i gynnwys hefyd mae sut y gallai'r newid posib effeithio ar bellter cerdded ac amser siwrnai presennol disgyblion.

Yn ychwanegol at hynny, mae'r asesiad yn nodi'r cysylltiadau sydd gan grwpiau lleol i ysgolion sy'n destun cynnig newid trefniadol ysgolion, ac yn gwerthuso effeithiau posib ar y cymunedau lleol.

Mae meysydd yr asesiad yn cynnwys iechyd a lles, llwybrau cerdded diogel, patrymau'r boblogaeth leol, yr economi ehangach a mynediad i ddarpariaeth gofal estynedig a gofal plant.


Casglwyd gwybodaeth gan arweinwyr yr ysgolion ynglŷn â defnydd presennol o gyfleusterau'r ysgol, cysylltiadau gyda sefydliadau cymunedol, a rôl pob ysgol o fewn ei hardal leol.

# RHAN C. LLEOLIADAU’R YSGOL

Mae Saltney yn dref ac yn rhan o ward etholiadol Saltney Ferry, Sir y Fflint i’r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr nid nepell o ddinas Caer.  Amcangyfrifwyd bod poblogaeth preswylwyr ward Saltney Ferry yn 5,199 yn 2024.

Mae’r Wyddgrug yn Sir y Fflint mewn lleoliad canolog o fewn y sir ac yn cynnwys pedair ward etholiadol. Amcangyfrifwyd bod poblogaeth preswylwyr pedair ward yr Wyddgrug yn 10,280 yn 2024.

Mae’r Fflint yn dref arfordirol sydd wedi’i lleoli yng ngogledd y sir ac yn cynnwys tair ward etholiadol.  Amcangyfrifwyd bod poblogaeth preswylwyr tair ward y Fflint yn 14,110 yn 2024.




Nodir y pellteroedd cerdded rhwng y chwe ysgol Gatholig yn Sir y Fflint isod.

| | Sant Anthony | Dewi Sant | Y Santes Fair | Sant R. Gwyn | Sant Gwenffrewi | H.E.M |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sant Anthony** | | 9.42 | 10.36 | 10.32 | 15.30 | 6.11 |
| **Dewi Sant** | 9.42 | | 5.64 | 5.90 | 9.02 | 5.56 |
| **Y Santes Fair** | 10.36 | 5.64 | | 0.15 | 5.48 | 4.94 |
| **Sant R. Gwyn** | 10.32 | 5.90 | 0.15 | | 5.60 | 4.91 |
| **Sant Gwenffrewi** | 15.30 | 9.02 | 5.48 | 5.60 | | 9.88 |
| **H.E.M** | 6.11 | 5.56 | 4.94 | 4.91 | 9.88 | |

# RHAN D. YSGOL GYNRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR SANT ANTHONY

## D.1. Darpariaeth Cludiant

### D.1.i. Proffil Cludiant Presennol

Mae gan Ysgol Sant Anthony gapasiti ar gyfer 152 o ddisgyblion llawn amser, gyda nifer derbyn o 21 o leoedd disgyblion llawn amser.

Ym mis Mawrth 2026, roedd 43 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr a 109 o leoedd dros ben, sydd gyfwerth â 71.71% o'r capasiti disgyblion llawn amser.

O'r 43 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Sant Anthony ym mis Mawrth 2026, roedd 41 (95.35%) yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint (nid oedd 4.65%).

Y pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y 41 disgybl oedd 0.61 milltir.

O'r 43 disgybl llawn amser, mae 39 yn byw o fewn 2 filltir i'r ysgol.

| Pellter | Nifer y Disgyblion | Canran y Disgyblion |
|---|---|---|
| O fewn 2 filltir | 39 | 90.70% |
| Mwy na 2 filltir | 4 | 9.30% |
| **Cyfanswm** | **43** | **100.00%** |

Yr amser teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion llawn amser sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i fynychu Ysgol Sant Anthony yw 15 munud.

Yn seiliedig ar y disgyblion llawn amser oedd wedi'u cofrestru ym mis Mawrth 2026, y gost flynyddol i'r Cyngor oedd £0.

### D.1.ii. Proffil Cludiant Posibl

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol Sant Anthony yn trosglwyddo i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan (pellter cerdded o tua 6.11 milltir) ar ôl cau'r ysgol. Mae'r pellteroedd hyn yn fwy na'r hyn y mae'r awdurdod yn ei ystyried yn bellter cerdded rhesymol ar gyfer dysgwyr oedran cynradd.

Y rhagamcan o'r amser[1] rhwng safle'r ysgol bresennol a'r ysgol amgen arfaethedig yw:

- Cerdded 2 awr 15 munud
- Beicio 32 munud
- Cludiant Cyhoeddus 37 munud
- Car Preifat 21 munud

O'r 43 disgybl llawn amser oedd wedi'u cofrestru yn Ysgol Sant Anthony ym mis Mawrth 2026, byddai pob un o'r 43 yn trosglwyddo i'w hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint, pe baent yn trosglwyddo i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan.

[1] Amcangyfrifwyd yr amseroedd cerdded gan ddefnyddio offer mapio digidol safonol ac maent yn adlewyrchu cyflymder cerdded nodweddiadol oedolion. Darperir y rhain at ddibenion dangosol yn unig.

Y pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y 43 disgybl fyddai 5.95 milltir.

O'r 43 disgybl llawn amser, byddai hyd at 41 yn gymwys i wneud cais am gludiant am ddim (gyda phrawf o ffydd) i fynychu Ysgol yr Hybarch Edward Morgan.

Ni fyddai'r amser teithio cyfartalog ar gyfer y disgyblion cymwys yn fwy na 45 munud[2].

Gallai cyfanswm cost flynyddol i'r Cyngor o gludo'r holl ddisgyblion llawn amser cymwys oedd wedi'u cofrestru yn Ysgol Sant Anthony ym mis Mawrth 2026, i Ysgol yr Hybarch Edward Morgan, fod tua £60,000 (gyda phrawf o ffydd).

## D.2. Cyfleusterau Presennol

### D.2.i. Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

- Clwb Brecwast

### D.2.ii. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

- Dim

### D.2.iii. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

- Eglwys

### D.2.iv. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol yn cynnwys:

- Tafarn x2
- Caffi

### D.2.v. Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

- Clwb Brecwast (neuadd yr ysgol)
- Gwarchodwyr plant x3 (yn y cartref)

## D.3. Cyfleusterau Eraill yr Ysgol

Cynigir bod disgyblion Sant Anthony yn trosglwyddo i'r Hybarch Edward Morgan, sydd â'r cyfleusterau presennol yn yr ysgol, neu gerllaw:

[2]Er mwyn cael amseroedd teithio cywir ar gyfer pob disgybl a sefydlu cyfartaledd, mae angen dadansoddi data amrywiol allweddol (fel cyfeiriadau, nifer y disgyblion mewn ardal, maint y cludiant ar gyfer y disgyblion hynny ac ati). Byddai hyn yn cael ei wneud pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

### D.3.i. Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

- Clwb Brecwast
- Ddarpariaeth Gofal Estynedig
- Pêl-osgoi
- Clwb Garddio
- Clwb Minecraft

### D.3.ii. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

- Dim

### D.3.iii. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

- Eglwys
- Pwll Nofio Cei Connah

### D.3.iv. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol yn cynnwys:

- Cae pêl-droed
- Parc Wepre

### D.3.v. Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

- Gwarchodwyr plant x3 (yn y cartref)
- Meithrin x2

# RHAN E. YSGOL GYNRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR SANT DAVID

## E.1. Darpariaeth Cludiant

### E.1.i. Proffil Cludiant Presennol

Mae gan Ysgol Dewi Sant gapasiti ar gyfer 144 o ddisgyblion llawn amser, gyda nifer derbyn o 21 o leoedd disgyblion llawn amser.

Ym mis Mawrth 2026, roedd 55 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr ac 89 o leoedd dros ben, sydd gyfwerth â 61.81% o'r capasiti disgyblion llawn amser.

O'r 43 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Dewi Sant ym mis Mawrth 2026, roedd 44 (80.00%) yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint (nid oedd 20.00%).

Y pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y 44 disgybl oedd 2.06 milltir.

O'r 55 disgybl llawn amser, mae 28 yn byw o fewn 2 filltir i'r ysgol.

| Pellter | Nifer y Disgyblion | Canran y Disgyblion |
|---|---:|---:|
| O fewn 2 filltir | 28 | 50.91% |
| Mwy na 2 filltir | 27 | 49.09% |
| **Cyfanswm** | **55** | **100.00%** |

Yr amser teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion llawn amser sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i fynychu Ysgol Dewi Sant yw 27 munud.

Yn seiliedig ar y disgyblion llawn amser oedd wedi'u cofrestru ym mis Mawrth 2026, y gost flynyddol i'r Cyngor oedd £74,000.

### E.1.ii. Proffil Cludiant Posibl

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol Dewi Sant yn aros ar safle'r ysgol ond fel rhan o'r ysgol newydd.

Pan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael yn y Fflint, rhagwelir y byddai disgyblion yn yr ysgol newydd ond a fyddai'n cael eu haddysgu ar hen safle Ysgol Dewi Sant (fel y byddai), yn trosglwyddo i safle'r ysgol newydd yn y Fflint (pellter cerdded tua 5.64 milltir). Mae'r pellteroedd hyn yn fwy na'r hyn y mae'r awdurdod yn ei ystyried yn bellter cerdded rhesymol ar gyfer dysgwyr oedran cynradd.

Y rhagamcan o'r amser[3] rhwng safle'r ysgol bresennol a'r ysgol amgen arfaethedig yw:

- Cerdded 2 awr 2 munud
- Beicio 30 munud
- Cludiant Cyhoeddus 26 munud
- Car Preifat 16 munud

[3] Amcangyfrifwyd yr amseroedd cerdded gan ddefnyddio offer mapio digidol safonol ac maent yn adlewyrchu cyflymder cerdded nodweddiadol oedolion. Darperir y rhain at ddibenion dangosol yn unig.

O’r 55 disgybl llawn amser oedd wedi’u cofrestru yn Ysgol Dewi Sant ym mis Mawrth 2026, byddai 9 yn trosglwyddo i’w hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint, pe baent yn aros yn yr ysgol newydd trwy drosglwyddo i’r safle yn y Fflint.

Y pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y 9 disgybl fyddai 4.08 milltir.

O’r 9 disgybl llawn amser, byddai hyd at 7 yn gymwys i wneud cais am gludiant am ddim (gyda phrawf o ffydd) i fynychu’r ysgol newydd yn y Fflint.

Yr amser teithio cyfartalog ar gyfer y rhai cymwys fyddai 30 munud.

Gallai cyfanswm cost flynyddol i’r Cyngor o gludo’r holl ddisgyblion llawn amser cymwys oedd wedi’u cofrestru yn Ysgol Dewi Sant ym mis Mawrth 2026, i safle’r ysgol newydd yn y Fflint, fod tua £30,000 (gyda phrawf o ffydd).

## E.2. Cyfleusterau Presennol

### E.2.i. Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r ysgol yn darparu’r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

- Clwb Brecwast
- Clwb Ar Ôl Ysgol
- Dechrau'n Deg
- Cyfle Cynnar.
- Meithrinfa a Mwy
- Clwb Gwyliau
- Mini Vinnies
- Paratoi ar gyfer Cymun Sanctaidd cyntaf
- Clwb Gwyddoniaeth
- Gwersi Cerddoriaeth (gitâr a drymiau)
- Gwersi cerddoriaeth Gwasanaeth Cerdd Sir y Fflint

### E.2.ii. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau’r ysgol:

- Grŵp Chwarae Dewi Sant (Cam wrth Gam)
- Clwb ar ôl Ysgol Dewi Sant (Cam wrth Gam)
- Dechrau'n Deg (Cam wrth Gam)
- Cyfle Cynnar (Cam wrth Gam)
- Clwb Gwyliau (Cam wrth Gam)

### E.2.iii. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae’r ysgol yn defnyddio’r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

- Llyfrgell

- Ymweliad i Fryn y Beili
- Gweithgareddau Cyngor Tref Yr Wyddgrug e.e. rasys crempogau, troi'r goleuadau Nadolig ymlaen, cyfarfodydd cyngor tref ieuenctid, ac ati
- Neuadd yr Eglwys
- Banc Bwyd
- Eglwys Gatholig Dewi Sant
- Archfarchnadoedd Lleol

### E.2.iv. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol yn cynnwys:

- Dim

### E.2.v. Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

- Clwb Brecwast Dewi Sant (Neuadd yr Ysgol)
- Clwb ar ôl Ysgol Dewi Sant (Neuadd yr Ysgol / Adeilad y Feithrinfa) (Cam wrth Gam)
- Grŵp Chware Dewi Sant a Meithrin Mwy (Neuadd yr Ysgol / Adeilad y Feithrinfa) (Cam wrth Gam)
- Clwb Gwyliau Dewi Sant (Adeilad y Feithrinfa) (Cam wrth Gam)
- Dechrau'n Deg Dewi Sant (Adeilad y Feithrinfa) (Cam wrth Gam)
- Cyfle Cynnar Dewi Sant (Adeilad y Feithrinfa) (Cam wrth Gam)

## E.3. Cyfleusterau Eraill yr Ysgol

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol Dewi Sant yn aros ar safle'r ysgol ond fel rhan o'r ysgol newydd.

Pan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael yn y Fflint, rhagwelir y byddai disgyblion yn yr ysgol newydd ond a fyddai'n cael eu haddysgu ar hen safle Ysgol Dewi Sant (fel y byddai), yn trosglwyddo i safle'r ysgol newydd yn y Fflint (pellter cerdded tua 5.64 milltir).

O ganlyniad, mae'r cyfleusterau presennol ar gyfer disgyblion y Santes Fair (manylion isod) yn debygol o aros. Yn ogystal â hynny, mae cyfle i ddarparu cyfleusterau ychwanegol a allai gynnig mwy o gyfleoedd, fel y gall y gymuned defnyddio'r cyfleusterau presennol.

Mae manylion o'r safle a'r cyfleusterau posib wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol.

Gellid darparu cyfleusterau cymunedol yn yr ysgol, fel clybiau brecwast a gofal estynedig, yn yr ysgolion amgen arfaethedig.  Gellid adleoli grwpiau eraill sy'n defnyddio cyfleusterau'r ysgol, fel Dechrau'n Deg a chlybiau gwyliau, i ysgolion amgen yn yr ardal neu adeiladau cymunedol eraill. Gellir archwilio hyn gyda grwpiau unigol i benderfynu ar yr ateb gorau sydd ar gael.

# RHAN F. YSGOL GYNRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR Y SANTES FAIR

## F.1. Darpariaeth Cludiant

### F.1.i. Proffil Cludiant Presennol

Mae gan Ysgol y Santes Fair gapasiti ar gyfer 317 o ddisgyblion llawn amser, gyda nifer derbyn o 45 o leoedd disgyblion llawn amser.

Ym mis Mawrth 2026, roedd 243 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr a 74 o leoedd dros ben, sydd gyfwerth â 23.34% o'r capasiti disgyblion llawn amser.

O'r 243 disgybl llawn amser sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol y Santes Fair ym mis Mawrth 2026, roedd 229 (94.24%) yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint (nid oedd 5.76%).

Y pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y 229 disgybl oedd 0.75 milltir.

O'r 243 disgybl llawn amser, mae 217 yn byw o fewn 2 filltir i'r ysgol.

| Pellter | Nifer y Disgyblion | Canran y Disgyblion |
|---|---:|---:|
| O fewn 2 filltir | 217 | 89.30% |
| Mwy na 2 filltir | 26 | 10.70% |
| **Cyfanswm** | **243** | **100.00%** |

Yr amser teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion llawn amser sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i fynychu Ysgol y Santes Fair yw 20 munud.

Yn seiliedig ar y disgyblion llawn amser oedd wedi'u cofrestru ym mis Mawrth 2026, y gost flynyddol i'r Cyngor oedd £71,000.

### F.1.ii. Proffil Cludiant Posibl

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol y Santes Fair yn aros ar safle Ysgol y Santes Fair yn eu hadeilad presennol ond fel rhan o'r ysgol newydd.

Pan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael, bydd disgyblion yn trosglwyddo iddo ond yn aros ar yr un safle.

Byddai nifer y disgyblion oedd wedi'u cofrestru yn Ysgol y Santes Fair ym mis Mawrth 2026, a oedd yn mynychu eu hysgol gynradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint yn aros fel 229.

Byddai'r pellter cerdded cyfartalog ar gyfer y 229 disgybl yn aros fel 0.75 milltir.

Ni fyddai'r amser teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion llawn amser sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i fynychu Ysgol y Santes Fair yn newid, gan aros fel 20 munud.

Byddai'r gost flynyddol i'r Cyngor o ran cludiant yn parhau i fod tua £71,000.

## F.2. Cyfleusterau Presennol

### F.2.i. Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

- Clwb Brecwast
- Clwb Ar Ôl Ysgol
- Clwb pêl-droed
- Clwb pêl-rwyd
- Clwb Aml-chwaraeon
- Clwb Celfyddydau Mynegiannol
- Clwb Gemau
- Clwb Garddio

### F.2.ii. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

- Ysgol Bêl-droed Nev Powell

### F.2.iii. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

- Eglwys y Beichiogiad Dihalog
- Pafiliwn Jade Jones
- Llyfrgell y Fflint
- Clwb Bowls Coleshill

### F.2.iv. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol yn cynnwys:

- Parc Albert
- Pyllau Pysgod 'The Pandy'
- Stadiwm Pêl-droed Cae y Castell (Stadiwm Essity)
- Tafarn 'The Mill Tavern'
- Tafarn 'The Welsh Harp'

### F.2.v. Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

- Clwb ar ôl ysgol Ysgol Gwynedd (Yr Ardal Leol)
- Clwb ar ôl ysgol Ysgol Cornist Park (Yr Ardal Leol)
- Clwb ar ôl ysgol Ysgol Croes Atti (Yr Ardal Leol)
- Clwb Hwyl yng Nghlwb ar ôl ysgol y Santes Fair (Ysgol)
- Meithrinfa Teddy Bear Towers (Yr Ardal Leol)
- Meithrinfa Ddydd The Oaks (Yr Ardal Leol)

## F.3. Cyfleusterau Eraill yr Ysgol

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol y Santes Fair yn aros ar safle Ysgol y Santes Fair yn eu hadeilad presennol ond fel rhan o'r ysgol newydd. Pan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael, bydd disgyblion yn trosglwyddo iddo ond yn aros ar yr un safle.

O ganlyniad, mae'r cyfleusterau presennol ar gyfer disgyblion y Santes Fair (manylion isod) yn debygol o aros. Yn ogystal â hynny, mae cyfle i ddarparu cyfleusterau ychwanegol a allai gynnig mwy o gyfleoedd, fel y gall y gymuned defnyddio'r cyfleusterau presennol.

Mae manylion o'r safle a'r cyfleusterau posib wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol.

# RHAN G. YSGOL UWCHRADD GATHOLIG WIRFODDOL A GYNORTHWYIR SANT RICHARD GWYN

## G.1. Darpariaeth Cludiant

### G.1.i. Proffil Cludiant Presennol

Mae gan Ysgol Sant Richard Gwyn gapasiti ar gyfer 969 o ddisgyblion, gyda nifer derbyn o 166 o leoedd disgyblion.

Ym mis Mawrth 2026, roedd 726 o ddisgyblion ar y gofrestr a 243 o leoedd dros ben, sydd gyfwerth â 25.08% o'r capasiti.

Roedd pob un o'r 726 disgybl a oedd wedi'u cofrestru yn Ysgol Sant Richard Gwyn ym mis Mawrth 2026 yn mynychu eu hysgol uwchradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint.

Adeg cyhoeddi, roedd proses o wirio 12 cyfeiriad yn cael ei chynnal. O'r 714 disgybl sy'n weddill, y pellter cerdded cyfartalog i'r ysgol oedd 3.63 milltir.

O'r 714 disgybl llawn amser, mae 280 yn byw o fewn 3 milltir i'r ysgol.

| Pellter | Nifer y Disgyblion | Canran y Disgyblion |
|---|---:|---:|
| O fewn 2 filltir | 280 | 39.22% |
| Mwy na 2 filltir | 434 | 60.78% |
| **Cyfanswm** | **714** | **100.00%** |

Nid yw'r amser teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion llawn amser sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i fynychu Ysgol Sant Richard Gwyn yn fwy na 45 munud.

Yn seiliedig ar y disgyblion llawn amser oedd wedi'u cofrestru ym mis Mawrth 2026, y gost flynyddol i'r Cyngor oedd £346,000.

### G.1.ii. Proffil Cludiant Posibl

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol Sant Richard Gwyn yn aros ar safle Ysgol Sant Richard Gwyn yn eu hadeilad presennol ond fel rhan o'r ysgol newydd.

Pan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael, bydd disgyblion yn trosglwyddo iddo ond yn aros ar yr un safle.

Byddai nifer y disgyblion oedd wedi'u cofrestru yn Ysgol Sant Richard Gwyn ym mis Mawrth 2026, a oedd yn mynychu eu hysgol uwchradd Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg agosaf yn Sir y Fflint yn aros fel 726.

Adeg cyhoeddi, roedd proses o wirio 12 cyfeiriad yn cael ei chynnal. O'r 714 disgybl sy'n weddill, byddai'r pellter cerdded cyfartalog i'r ysgol yn aros fel 3.63 milltir.

Ni fyddai'r amser teithio cyfartalog ar gyfer disgyblion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim i fynychu Ysgol Sant Richard Gwyn yn newid ac ni fyddai'n fwy na 45 munud.

Byddai'r gost flynyddol i'r Cyngor o ran cludiant yn parhau i fod tua £346,000.

## G.2. Cyfleusterau Presennol

### G.2.i. Gwasanaethau a Ddarperir gan yr Ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion:

- Cerddoriaeth a drama
- Clybiau chwaraeon
- Dosbarthiadau adolygu

### G.2.ii. Cyfleusterau ysgol a ddefnyddir gan grwpiau lleol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r grwpiau canlynol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol:

- Dim

### G.2.iii. Cyfleusterau lleol a ddefnyddir gan yr ysgol

Mewn blwyddyn arferol, mae'r ysgol yn defnyddio'r cyfleusterau cymunedol canlynol yn yr ardal leol:

- Pafiliwn Jade Jones
- Castell y Fflint
- Eglwys y Santes Fair

### G.2.iv. Cyfleusterau sydd ar gael ger yr ysgol

Mae'r cyfleusterau cymunedol eraill sydd ar gael ac wedi'u lleoli ger yr ysgol yn cynnwys:

- Tafarn The Harp
- Caffis a siopau amrywiol ar y stryd fawr ac yn y parc manwerthu
- Eglwys y Beichiogiad Dihalog, y Fflint/ Eglwys y Santes Fair, y Fflint

### G.2.v. Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r darparwyr gofal plant canlynol ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

- Teddy Bear Towers
- Meithrinfa Treehouse Play

## G.3. Cyfleusterau Eraill yr Ysgol

Cynigir y byddai disgyblion yn Ysgol Sant Richard Gwyn yn aros ar safle Ysgol Sant Richard Gwyn yn eu hadeilad presennol ond fel rhan o'r ysgol newydd. Pan fydd yr adeilad ysgol newydd ar gael, bydd disgyblion yn trosglwyddo iddo ond yn aros ar yr un safle.

O ganlyniad, mae'r cyfleusterau presennol ar gyfer disgyblion y Santes Fair (manylion isod) yn debygol o aros. Yn ogystal â hynny, mae cyfle i ddarparu cyfleusterau ychwanegol a allai gynnig mwy o gyfleoedd, fel y gall y gymuned defnyddio'r cyfleusterau presennol.

Mae manylion o'r safle a'r cyfleusterau posib wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol.

# RHAN H. CRYNODEB CLUDIANT

Cafodd ei dybio bod rhieni wedi dewis ysgol benodol ar gyfer eu plentyn yn seiliedig ar gategori ysgol.

Mae pob ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg, sy'n darparu addysg ffydd Gatholig.

At y diben hwnnw, cafodd ei dybio bod y disgyblion sy'n cael eu heffeithio un ai'n aros yn (os yw'n bosibl) neu'n cael eu trosglwyddo i'w (pan mae cau'r ysgol yn cael ei gynnig) hysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir, cyfrwng Saesneg a nodwyd yn Sir y Fflint.

Os yw'r cynnig yn cael ei weithredu, mae effeithiau posib wedi cael eu hasesu o ran pellteroedd cerdded, amseroedd teithiau a chostau cludiant.

### H.1.i. Pellter Cerdded

| Ysgol | Pellter Cerdded Cyfartalog (milltiroedd) i'r safle presennol (Mawrth 2026) | Pellter Cerdded Cyfartalog (milltiroedd) i'r safle newydd arfaethedig | Newid (milltiroedd) | Effaith Ddisgwyliedig |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Anthony | 0.61 | 5.95 | + 5.34 | Negyddol |
| Ysgol Dewi Sant | 2.06 | 4.08 | + 2.02 | Negyddol |
| Ysgol y Santes Fair | 0.75 | 0.75 | 0 | Niwtral |
| Ysgol Sant Richard Gwyn | 3.63 | 3.63 | 0 | Niwtral |

### H.1.ii. Amseroedd Teithiau

| Ysgol | Amser Teithio Cyfartalog (munudau) i'r safle presennol (Mawrth 2026) | Amser Teithio Cyfartalog (munudau) i'r safle newydd arfaethedig | Newid (munudau) | Effaith Ddisgwyliedig |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Anthony | 15 | <45 | 30+ | Negyddol |
| Ysgol Dewi Sant | 27 | 30 | +3 | Negyddol |
| Ysgol y Santes Fair | 20 | 20 | 0 | Niwtral |
| Ysgol Sant Richard Gwyn | 45 | 45 | 0 | Niwtral |

## H.1.iii. Costau Cludiant

| Ysgol | Costau Cludiant (£) i'r safle presennol (Mawrth 2026) | Costau Cludiant Posibl (£) i'r safle newydd arfaethedig | Newid (£) | Effaith Ddisgwyliedig |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Sant Anthony | £0.00 | £60,000.00 | £60,000.00 | Negyddol |
| Ysgol Dewi Sant | £74,000.00 | £30,000.00 | -£44,000.00 | Cadarnhaol |
| Ysgol y Santes Fair | £71,000.00 | £71,000.00 | £0.00 | Niwtral |
| Ysgol Sant Richard Gwyn | £346,000.00 | £346,000.00 | £0.00 | Niwtral |
| **Cyfanswm** | **£491,000.00** | **£507,000.00** | **£16,000.00** | **Negyddol** |

# RHAN I. EFFEITHIAU A MESURAU LLINIARU POSIBL

## I.1. Cludiant Cyhoeddus

**Effaith Bosibl: Niwtral**

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ehangach o fewn yr ardal, gan fod gwasanaethau presennol yn gweithredu'n annibynnol o alw penodol i ysgolion.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Dim**

## I.2. Iechyd a Lles

**Effaith Bosibl: Effeithiau Cadarnhaol, Niwtral a Negyddol**

Mae asesiad manwl o'r effeithiau posib ar iechyd a lles wedi'i gynnwys yn yr Asesiad o Effaith Integredig. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys ffyrdd o fyw, lles meddylion, diogelu a thlodi tanwydd.

Ar gyfer y disgyblion hynny a fydd yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall, fe allai fod yn heriol ac achosi pryderon tymor byr mewn perthynas â symud. Yn ogystal â hynny, mae'n anoddach i blant sy'n mynychu ysgol nad yw wedi'i lleoli yn eu cymuned gyfagos ymgysylltu â gweithgareddau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, a bod yn llai tebygol i allu cerdded neu feicio i'r ysgol.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Cymorth i Bontio**

Bydd pob disgybl yn cael cynnig cefnogaeth bontio a bugeiliol er mwyn lleihau unrhyw bryderon mewn perthynas â phontio i ysgol newydd.

Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o gefnogi disgyblion ADY drwy brosesau ad-drefnu ysgolion. Mewn prosiectau blaenorol, bu i gynlluniau pontio personol alluogi dysgwyr diamddiffyn i addasu'n ddiogel ac yn hyderus.  Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai disgyblion ag ADY yn cael:

- Cynlluniau pontio personol yn seiliedig ar eu hanghenion unigol
- Mwy o ymweliadau ymgyfarwyddo yn ystod y cyfnod pontio
- Cefnogaeth weledol, straeon cymdeithasol ac esboniadau sy'n addas i ddisgyblion
- Cyfleoedd i ddisgyblion gyfarfod staff newydd ymlaen llaw
- Cyfnodau pontio graddol, gan gynyddu'r amser a dreulir ar y safle'n raddol pan fo angen
- Cyswllt agos rhwng Cydlynwyr ADY, athrawon dosbarth, teuluoedd ac asiantaethau allanol

## I.3. Diogelwch Cymunedol

**Effaith Bosibl: Niwtral**

Yn dilyn asesiad yn defnyddio canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, ni ystyrir bod y llwybrau cerdded yn ardal y Fflint (fel y nodir ar y cynllun atodol) yn beryglus.  Mae'r cyfuniad o isadeiledd di-dor i gerddwyr, cyfleusterau croesi diogel ar ffyrdd prysurach ac amodau cerdded sy'n ffafriol yn gyffredinol yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu teithio i'r ysgol yn weddol ddiogel.

Mae'r asesiad cyflawn wedi'i gynnwys yn Atodiad K.1.

Nid oes Asesiadau Llwybrau Diogel wedi'u cynnal yn unrhyw un o'r ardaloedd eraill oherwydd bydd disgyblion o'r ardaloedd hynny'n gymwys i hawlio cludiant am ddim (gyda phrawf o ffydd) i'w hysgol amgen a nodwyd, oherwydd pellter.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Gwella darpariaeth diogelwch yn ardal y Fflint**

Er nad oedd materion diogelwch sylweddol wedi'u nodi yn y Fflint, efallai bydd cyfleoedd i wella llwybrau cerdded ymhellach lle bo'n briodol.

## I.4. Cyfleusterau Eraill yn Lleol

**Effaith Bosibl: Negyddol**

Yn Saltney a'r Wyddgrug, mae'n ymddangos bod cyfleusterau addas cyfyngedig yn yr ardal leol agos, y gallai eu defnyddio i ddarparu'r gweithgareddau presennol sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Yn ogystal â hynny, mae'n cael ei gydnabod efallai nad yw ceisio efelychu'r gweithgareddau hyn mewn lleoliad arall yn hyfyw heb bresenoldeb yr ysgol.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid ac archwilio dewisiadau amgen**

Er bod gwybodaeth am gyfleusterau wedi'i darparu i bob ysgol, efallai byddai safleoedd addas eraill ar gael, ond yn yr ardal leol ehangach. Byddai trafodaethau gyda rhieni yn pennu a oes awydd i adleoli gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r ysgol i'r ardal leol ehangach, neu a fyddant yn chwilio am yr un gweithgareddau yn eu hysgol arall a ffefrir.

## I.5. Gwasanaethau Lleol wedi'u Lleoli yn yr Ysgol

**Effaith Bosibl: Niwtral a Negyddol**

Nid oes gwasanaethau cymunedol a arweinir gan yr ysgol yn Sant Anthony a fyddai'n cael eu colli'n uniongyrchol. Serch hynny, efallai gall rhieni yn yr Wyddgrug golli mynediad i wasanaethau sy'n cael eu darparu ar safle'r ysgol ar hyn o bryd, megis darpariaeth Dechrau'n Deg, gofal plant y blynyddoedd cynnar a chlwb gwyliau, ac eithrio bod posib eu hadleoli.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Archwilio dewisiadau eraill**

Efallai bod cyfle i ad-leoli gwasanaethau i ysgolion eraill yn yr ardal ehangach, ond heb ddynodiad Catholig. Gellir ymgysylltu gyda rhieni a budd-ddeiliad er mwyn nodi lleoedd eraill, ac ystyried mynediad i weithgareddau tebyg eraill drwy ysgolion amgen os ydynt ar gael.

## I.6. Y Boblogaeth Leol

**Effaith Bosibl: Cadarnhaol a Negyddol**

Mae gan y Fflint ysgolion a sefydlwyd, isadeiledd a chyfleusterau cymunedol sy'n ei gwneud yn lle deniadol i fyw. Byddai adeiladu ysgol newydd yn gwella'r cynnig addysg presennol, a all atynnu teuluoedd i'r ardal, ond mae hyn yn debygol o fod yn effaith gadarnhaol fach.

Yn debyg i'r Fflint, mae gan Saltney a'r Wyddgrug nifer o ysgolion amgen (nad ydynt yn Gatholig), sydd â chysylltiadau cludiant da, ac ysgol o gyfleusterau cymunedol ar gael. Er gall tynnu ysgolion cynradd Catholig yn yr ardaloedd hyn arwain at bobl yn adleoli, neu ddim yn symud i'r lleoedd hyn, mae'n debygol y byddai unrhyw effaith negyddol yn fach.

Ar y cyfan, disgwylir na fydd llawer o effaith ar batrymau poblogaeth leol.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Monitro tueddiadau disgyblion**

Sicrhau bod y mathau cywir o ysgolion yn cael eu darparu yn yr ardaloedd cywir ar gyfer y nifer cywir o ddisgyblion.

## I.7. Y Gymuned Ehangach

**Effaith Bosibl: Niwtral a Negyddol**

Disgwylir effaith niwtral yn ardal y Fflint gan y byddai'r nifer o bobl sy'n mynd i'r ysgol arfaethedig yn parhau ar y lefelau presennol.

Disgwylir effaith negyddol yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug yn sgil cau Ysgol Sant Anthony a Dewi Sant (safle). Bydd cau ysgol yn lleihau'r nifer o bobl sy'n dod mewn i'r ardal benodol honno.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Dim**

## I.8. Ymgysylltiad gydag Ysgolion Amgen

**Effaith Bosibl: Cadarnhaol**

Bydd y cynnig yn uno disgyblion mewn un ysgol gyda mynediad at ystod ehangach o gyfleusterau, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cyfoethogi. Mae gan hyn y potensial i gynyddu cyfranogiad cyffredinol mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Ond, cydnabyddir efallai y bydd rhai dysgwyr a theuluoedd yn wynebu rhwystrau o safbwynt ymgysylltu, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio neu fe allai'r cynnydd mewn pellter teithio, costau neu fod yn gyfarwydd â'r lleoliad newydd effeithio ar gyfranogiad.

**Mesurau Lliniaru Posibl:**

- Datblygu cynllun pontio i gefnogi disgyblion a theuluoedd i ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig.
- Parhau â darpariaeth gofal plant estynedig a gweithgareddau allgyrsiol i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio
- Sicrhau mynediad teg at weithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys ystyried costau ac argaeledd lleoedd
- Monitro lefelau cyfranogiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr difreintiedig, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw grwpiau'n wynebu effeithiau anghyfartal
- Darparu gohebiaeth glir i rieni / gofalwyr ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt

## I.9. Mynediad i Addysg Gatholig

**Effaith Bosibl: Niwtral a Negyddol**

Disgwylir effaith niwtral yn ardal y Fflint gan y bydd addysg sy'n seiliedig ar y ffydd Gatholig yn parhau yn yr ardal.

Disgwylir effaith negyddol yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug yn sgil cau Ysgol Sant Anthony a Dewi Sant (safle).

**Mesurau Lliniaru Posibl: Cludiant am ddim i ddisgyblion (yn amodol ar ofynion meini prawf)**

Nid yw addysg sy'n seiliedig ar ffydd ar gael ym mhob tref a phentref yn Sir y Fflint. Serch hynny, yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae'r Cyngor hefyd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran gorfodol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter.

## I.10. Mynediad i Addysg gyda'r Un Cyfrwng Iaith

**Effaith Bosibl: Niwtral**

Disgwylir effaith niwtral gan fod addysg yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng Saesneg ym mhob ysgol Gatholig yn Sir y Fflint. Ni fyddai hyn yn newid ar ôl gweithredu a bydd hyn yn parhau i rieni/gwarcheidwaid sydd eisiau addysg sy'n seiliedig ar y ffydd Gatholig i'w plant yn Saesneg.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Dim**

## I.11. Pellteroedd Cerdded ac Amser Siwrnai

**Effaith Bosibl: Niwtral a Negyddol**

Ni fyddai'r cynnig yn newid pellteroedd cerdded, nac amseroedd siwrnai ar gyfer disgyblion y Santes Fair a Sant Richard Gwyn.

Serch hynny, cydnabyddir y byddai'r pellteroedd cerdded cyfartalog ar gyfer disgyblion presennol Sant Anthony i'w hysgol amgen arfaethedig yn cynyddu'n sylweddol. Mae hyn yn golygu y byddai'r disgyblion yn wynebu amseroedd siwrnai sylweddol hirach hefyd.

O ran disgyblion presennol Dewi Sant, bydd ganddynt hwythau gynnydd i bellteroedd cerdded cyfartalog i'w hysgol amgen arfaethedig, a chynnydd i amseroedd siwrnai cyfartalog.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Dim**

Drwy dynnu Sant Anthony a Dewi Sant o rwydwaith ysgolion Catholig, mae'n golygu byddai angen i ddisgyblion o'r ysgolion hyn drosglwyddo i ysgolion eraill. Nid oes modd lliniaru unrhyw gynnydd i bellter cerdded neu amser siwrnai.

Serch hynny, bydd mynediad i gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim (yn amodol ar gymhwysedd) ac ystyriaeth o drefniadau pontio lle bo'n briodol.

## I.12. Ysgolion Gerllaw

**Effaith Bosibl: Niwtral a Negyddol**

Disgwylir effaith niwtral yn ardal y Fflint gan mai dim ond cynnydd bychan a ddisgwylir yn nifer y disgyblion.

Disgwylir effaith niwtral yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug hefyd gan y tybir bod disgyblion yn mynychu Ysgol Sant Anthony a Dewi Sant oherwydd yr addysg Gatholig sy'n cael ei ddarparu. Yr estyniad i'r dybiaeth hon yw y bydd disgyblion yn trosglwyddo i'w hysgolion Catholig agosaf yn Sir y Fflint, sydd ar gael y tu allan i ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug.

Disgwylir effaith cadarnhaol yn Shotton gan mai'r ysgol gynradd Gatholig agosaf i fwyafrif y disgyblion presennol sy'n mynychu Ysgol Sant Anthony yw Ysgol Hybarch Edward Morgan. Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Hybarch Edward Morgan yn helpu i leihau ei lefydd gwag presennol.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Dim**

## I.13. Darpariaeth Gofal Plant Estynedig a Gofal Plant

**Effaith Bosibl: Cadarnhaol a Negyddol**

Byddai tynnu Sant Anthony a Dewi Sant yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gofal estynedig yn ardaloedd Saltney a'r Wyddgrug. Mae'r ddwy ysgol yn cynnal clybiau brecwast a fyddai'n cau os yw'r cynnig yn cael ei weithredu. Dyma fyddai'r achos ar gyfer clwb ar ôl ysgol Dewi Sant hefyd.

Yn ychwanegol ar hynny, gallai darparwyd gofal plant trydydd parti weld cynnydd yn y galw, os yw disgyblion o'r ysgolion hyn yn trosglwyddo i'r ysgolion amgen arfaethedig.

Byddai disgyblion yn y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn elwa o gyfleusterau newydd, a fyddai'n gwella eu gweithgareddau gofal estynedig, ac o bosib, y darparu mynediad ar gyfer datblygu cyfleoedd newydd.

Efallai bydd darparwyr gofal plant yn ardal y Fflint yn gweld cynnydd mewn galw os yw disgyblion o ysgolion eraill yn symud i'r ysgol newydd.

**Mesurau Lliniaru Posibl: Archwilio Gofal Plant Amgen**

Mae posibilrwydd o gynnwys cyfleuster gofal plant unigol ar gampws newydd yr ysgol, a fyddai'n annog ymgysylltiad cynnar gyda'r ffydd Gatholig, a gallai helpu i gynnal y galw ar gyfer yr ysgol newydd.

Dylid nodi nad oes penderfyniad wedi cael ei gymryd i gynnwys cyfleuster gofal plant, ond bydd yn cael ei ystyried os yw'r cynnig yn cael ei weithredu.

Ymgysylltiad gyda darparwyr presennol i gefnogi parhad lle bo'n bosibl.

# RHAN J.  CASGLIAD

Bydd gan gynigion newid trefniadau ysgolion yn cael effeithiau cadarnhaol, niwtral a negyddol ar y cymunedau dan sylw.

Yn nhermau effaith gyffredinol y gweithrediad, mae hyn yn dibynnu'n sylweddol ar ba gymuned leol sy'n cael ei hystyried. Derbynnir bod y mwyafrif o'r effeithiau cadarnhaol sy'n ymwneud â'r Fflint, a bod y mwyafrif o effeithiau negyddol yn ymwneud â Saltney a'r Wyddgrug.

Ar gyfer y Fflint, byddai'r gymuned leol yn elwa ar gyfleusterau modern, carbon sero net a allai gael eu defnyddio ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau a mentrau cymunedol.

Serch hynny, byddai cymunedau Saltney a'r Wyddgrug yn colli ysgolion, a gallai hyn leihau mynediad lleol i wasanaethau cymunedol, effeithio ar rwydweithiau cymunedol a gwanhau hunaniaeth y gymdogaeth. Lle bo'n bosib, mae mesurau lliniaru wedi cael eu darparu er mwyn lleihau neu dynnu effeithiau negyddol, ond nid oes modd diwallu rhai effeithiau.

O ran cludiant yn benodol, ar gyfer disgyblion ysgolion y Santes Fair a Sant Richard Gwyn amlygodd yr asesiad o'r effaith ar gludiant na fyddai yna unrhyw effaith sylweddol yn nhermau pellter cerdded neu amser siwrneiau.  Nid yw'r costau cludiant sy'n gysylltiedig â hwyluso presenoldeb disgyblion yn yr ysgolion hyn yn newid 'chwaith.

Fodd bynnag, byddai disgyblion Ysgol Sant Anthony ac Ysgol Dewi Sant yn cael eu heffeithio o safbwynt cludiant.

Ar gyfer disgyblion Sant Anthony, byddai'r pellter cerdded cyfartalog i'r ysgol Gatholig agosaf yn cynyddu o 0.61 milltir i 5.95 milltir, a fyddai'n arwain at gynnydd posibl mewn amseroedd teithio cludiant ysgol – o 15 munud i hyd at 45 munud.  Byddai'r cynnydd posibl yn y costau Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn oddeutu £60,000 y flwyddyn i'r Cyngor.

Ar gyfer Ysgol Dewi Sant, mae'r gymhariaeth yn fwy cymhleth.  Mae'r pellter cerdded presennol i'r ysgol ar gyfer y rheiny sy'n mynd i'w hysgol Gatholig agosaf yn 2.06 milltir, gyda'r amser teithio cyfartalog yn 27 munud.

Pan fydd yr ysgol wedi'u huno ag Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Sant Richard Gwyn, tybir y bydd yr holl ddisgyblion o safle Ysgol Dewi Sant yn symud i'r ysgol newydd yn y Fflint unwaith y bydd yn barod. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y bydd llawer llai o ddisgyblion yn mynd i'w hysgol gynradd Gatholig agosaf.

Gan fod y pellteroedd ac amseroedd teithio yn cael eu cyfrifo ar sail disgyblion yn mynd i'w hysgolion agosaf (o'r un categori, math at ati), bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi'u heithrio o'r cyfrifiad newydd.  I'r disgyblion hynny lle bydd yr ysgol newydd yn y Fflint yn ysgol Gatholig agosaf iddynt, byddai'r pellter cerdded yn cynyddu i 4.08 milltir a'r amser teithio cyfartalog ar gyfer cludiant ysgol yn cael ei ragweld yn 30 munud.

Yr effaith ar gostau cludiant fyddai arbediad o tua £44,000, i lawr i tua £30,000.

Er bod arbedion posibl, mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai cael gwared ar gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim yn gwneud symud i'r safle newydd yn anodd i ddisgyblion Ysgol Dewi Sant.  O ganlyniad, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r teuluoedd sy'n cael eu heffeithio i wneud trefniadau addas i helpu eu plant fynd i'r ysgol newydd.

Er nad oes modd lliniaru cynnydd i bellteroedd ac amseroedd siwrnai yn llwyr, gall mesurau cefnogi megis cludiant am ddim (lle bo'n gymwys) a threfniadau pontio leihau'r effaith ar y teuluoedd sy'n cael eu heffeithio.

## K.1. Asesiad Teithio Dysgwyr – Llwybrau Cerdded y Fflint

Adroddiad Asesu Llwybrau Teithio Dysgwyr

Ardal Arfaethedig: Y Fflint – Llwybrau Cerdded i Ysgolion Lleol

Asesiad yn unol â Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o'r llwybrau teithio yn ardal y Fflint. Mae'r asesiad wedi'i gynnal yn unol â Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r meini prawf ar gyfer penderfynu a ystyrir bod llwybr cerdded ar gael i ddysgwyr sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno.

Pwrpas yr asesiad hwn yw penderfynu a ddylid dosbarthu'r llwybrau a nodwyd fel rhai peryglus.

2. Meini Prawf Asesu

Yn unol â'r canllawiau statudol, ystyrir bod llwybr ar gael ac nad yw'n beryglus os yw'n:

- Darparu troedffordd barhaus a digonol
- Cynnwys mannau croesi diogel lle bo'r gofyn
- Priodol ar gyfer oedran a gallu dysgwyr
- Caniatáu i ddysgwyr gerdded yn rhesymol ddiogel gyda chwmni, lle bo'n berthnasol
- Ac os nad yw'n dangos patrymau gwrthdrawiad sy'n dangos risg uwch i gerddwyr

3. Disgrifiad o'r Llwybr

Mae'r llwybrau a aseswyd yn cynnwys y rhwydwaith cerdded yn ardal y Fflint, sy'n cysylltu cymdogaethau preswyl ag ysgolion lleol fel y dangosir ar y cynllun ynghlwm.

Ar draws yr ardal, mae'r rhwydwaith cerdded yn cynnwys llwybrau troed parhaus ar hyd strydoedd preswyl a llwybrau dosbarthu, gyda chysylltiadau cerdded sefydledig rhwng cymunedau ac ysgolion. Pan fo dysgwyr yn dod ar draws ffyrdd prysurach, mae cyfleusterau croesi ffurfiol ar gael, sy'n darparu cyfleoedd diogel a rheoledig i groesi. Mae'n bosibl bod angen clirio llystyfiant ar rai llwybrau troed, ond nid yw hynny'n atal pobl rhag defnyddio'r llwybrau yn ddiogel. Ar y cyfan, mae'r rhwydwaith yn darparu llwybrau clir, uniongyrchol a cherddadwy drwy'r ardal.

4. Isadeiledd a Mesurau Diogelwch

4.1 Llwybrau troed

Mae llwybrau troed yr ardal yn ddi-dor ac yn ddigonol, gan ganiatáu i gerddwyr deithio'n ddiogel heb fynd ar y briffordd.

4.2 Cyfleusterau Croesi

Pan fo angen croesi ffyrdd prysur mae yna gyfleusterau croesi ffurfiol i gerddwyr, sy'n darparu cyfleoedd diogel a rheoledig i bobl groesi yn unol â'r canllawiau statudol.

4.3 Amodau Traffig

Mae amodau traffig ar draws yr ardal yn adlewyrchu patrymau trefol nodweddiadol. Ble mae mwy o gerbydau, mae'r isadeiledd cerdded a mannau croesi ffurfiol yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu symud yn ddiogel ar draws y rhwydwaith.

4.4 Data Damweiniau

Mae adolygiad o'r data sydd ar gael ar ddamweiniau yn dangos nad oes patrymau damweiniau sy'n cynnwys cerddwyr i awgrymu bod risg uwch i ddysgwyr.

5. Cydymffurfio â'r Canllawiau

Yn seiliedig ar y meini prawf yn y canllawiau statudol:

- Mae'r llwybrau troed yn bodloni gofynion hygyrchedd
- Mae'r croesfannau rheoledig yn lleihau risgiau ar ffyrdd prysur
- Nid yw cynllun cyffyrdd yn cyflwyno peryglon annerbyniol
- Nid oes patrymau i awgrymu bod y risg yn cynyddu
- Mae'r llwybrau yn addas ar gyfer dysgwyr gyda rhywun

Yn unol â hynny, mae'r llwybrau cerdded yn ardal y Fflint yn bodloni'r gofynion o ran eu bod ar gael.


6. Casgliad

Yn dilyn asesiad yn defnyddio canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, ni ystyrir bod y llwybrau cerdded yn ardal y Fflint (fel y nodir ar y cynllun atodol) yn beryglus. Mae'r cyfuniad o isadeiledd di-dor i gerddwyr, cyfleusterau croesi diogel ar ffyrdd prysurach ac amodau cerdded sy'n ffafriol yn gyffredinol yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu teithio i'r ysgol yn weddol ddiogel.

7. Gwybodaeth Bellach ac Argymhelliad

Darperir cynllun manwl sy'n dangos y llwybrau a aseswyd a'u hyd, ar wahân, i gefnogi'r adroddiad hwn.

I gynnal argaeledd y llwybrau, dylai'r rhwydwaith cerdded fod yn destun archwiliadau a threfniadau cynnal a chadw parhaus, yn cynnwys clirio llystyfiant a gwiriadau rheolaidd o'r mannau croesi i sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch.


N
W
E
S
KEY
Available Walking Routes
Pedestrian Crossing Facility.
St. Richard Gwyn
Catholic High School
PRELIMINARY
APPROVAL
CONSTRUCTION
Y FFlint
Flint
Hazardous Route Assessment
(Sheet 1 of 1)
HT/26/0000/000
P1